# PWYLLGOR PENSIYNAU, 25.11.11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, John G. Jones a John Wynn Jones.

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Trevor Edwards a'r Cynghorydd Tom Jones (cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn).

**1. CYMDYMDEIMLAD**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drasig ac annhymig mab y Cynghorydd Trevor Edwards a chydymdeimlwyd â'r teulu oll yn eu profedigaeth drist.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2011 fel rhai cywir.

**4. LLYWODRAETHU'R GRONFA BENSIWN**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn amlinellu'r gofynion llywodraethu newydd fydd yn berthnasol o 2011/12 ymlaen o ganlyniad i gyhoeddi Côd Ymarfer CIPFA parthed Sgiliau a Gwybodaeth am Bensiynau'r Sector Cyhoeddus a Chôd Stiwardiaeth ar gyfer y DU gan y *Financial Reporting Council (FRC*).

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y gofynion newydd hyn yn ymgais i wella rheolaeth cronfeydd pensiwn ar draws y wlad. Nododd, er bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydymffurfio'n llwyr â'r mwyafrif o'r datganiadau perthnasol, bod yna ddau faes lle nad oedd yn cydymffurfio'n llwyr. Yn gyntaf, nid oedd yna gynrychiolaeth o blith aelodau'r cynllun nac aelodau lleyg ar y Pwyllgor Pensiynau, ac yn ail, 'roedd angen mabwysiadu cynlluniau hyfforddi blynyddol ar gyfer swyddogion ac aelodau.

Yna, gan gyfeirio at y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth, argymhellodd y Cyfarwyddwr bod y pwyllgor yn mabwysiadu'r datganiadau ym mharagraffau 2.1.2 a 2.1.3 o'r adroddiad. Awgrymodd hefyd y dylid cylchredeg holiadur hunanasesu i'r aelodau er mwyn sefydlu'r gofynion hyfforddi cyn symud ymlaen i ddatblygu rhaglen fewnol wedi'i theilwrio'n benodol ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Cytunodd yr aelodau y byddai holiadur o'r fath o gymorth gan y byddai'n adnabod cryfderau a gwendidau'r unigolyn ac yn amlygu'r meysydd hynny sydd angen mwy o sylw.

Nodwyd hefyd, er bod y cwrs '*LGPS Fundamentals'* yn fuddiol iawn o safbwynt darparu sylfaen gadarn i'r aelodau yn y maes pensiynau, y gallai elfennau ohono fod braidd yn dechnegol. Credid hefyd bod yna ormod o fwlch rhwng y gwahanol sesiynau ac y byddai'n fuddiol eu cynnal yn agosach at ei gilydd.

Pwysleisiwyd bod y maes pensiynau yn faes hynod gymhleth ac arbenigol, a'i bod yn cymryd cryn amser i aelod newydd ddod yn hyddysg yn y maes. Mewn ymateb i'r sylw hwn, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai dyma pam ei bod yn bwysig sicrhau cymaint â phosib' o sefydlogrwydd yn aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau ac awgrymodd bod hwn yn fater i'r aelodau ei godi o fewn eu grwpiau gwleidyddol pan drafodir dyraniad y seddau ar y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai'r flwyddyn nesaf.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gallai'r Archwiliwr Dosbarth graffu'r hyfforddiant a ddarperir i'r aelodau wrth gyflawni ei archwiliad o'r Gronfa.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y derbyniwyd gwahoddiad i anfon un cynrychiolydd i Seminar Buddsoddi'r LGC yng Nghaer ar 1 Mawrth, 2012. Fodd bynnag, gan fod y Cyngor llawn yn cyfarfod ar yr un diwrnod, awgrymodd y gellid anfon y gwahoddiad ymlaen i un o'r ddau aelod cyfetholedig ar y pwyllgor.

Yna eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gofynnid hefyd i'r pwyllgor gytuno i'r egwyddor o gyhoeddi datganiad o gydymffurfiad gyda'r Côd Stiwardiaeth a mabwysiadu dulliau priodol o graffu ac adrodd am reolwyr buddsoddi ecwiti drwy ddewis un o'r tri opsiwn a amlinellwyd ym mharagraff 2.2.9 o'r adroddiad er mwyn cyflawni'r nod hwnnw.

Trafodwyd manteision ac anfanteision y tri opsiwn, sef:-

(1) Penodi cwmni arbenigol i lobïo ar ran y Gronfa Bensiwn ac adrodd yn ôl yn rheolaidd.
(2) Ymaelodi â Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) er mwyn dylanwadu ar lywodraethu corfforaethol buddsoddiadau ecwiti'r Gronfa.
(3) Monitro'r rheolwyr buddsoddi yn fewnol ac ymddiried ynddynt i gynrychioli buddiannau'r Gronfa fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Diystyrwyd yr opsiwn cyntaf ar sail arweiniad y Cyfarwyddwr y byddai penodi arbenigwyr yn gostus iawn i'r Gronfa. Mynegwyd cryn gefnogaeth i'r trydydd opsiwn, ond awgrymwyd y gallai'r ail opsiwn arwain at gwestiynu mwy trylwyr. Rhagwelid na fyddai'r ffi ymaelodi yn ormodol ac awgrymwyd hefyd y gellid cael gwell dylanwad wrth weithredu ar y cyd â chronfeydd pensiwn llywodraeth leol eraill.

Yna, gan gyfeirio at faterion moesegol, nodwyd bod yna gwestiynau yn codi o bryd i'w gilydd ynglŷn â'r mater yma. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod yn cydnabod bod hyn yn gallu creu dilema, ond na ddylai'r Gronfa golli golwg ar yr angen i sicrhau'r enillion gorau i'w haelodau. 'Roedd yr aelodau yn cytuno fod yn rhaid gwylio rhag rhoddi teimladau personol o flaen y dyletswydd i sicrhau'r dychweliadau gorau i'r Gronfa.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod y Pwyllgor Pensiynau yn mabwysiadu'r datganiad a ganlyn, yn unol ag argymhelliad CIPFA:-**

**(i) Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn mabwysiadu argymhellion allweddol y Côd Ymarfer Sgiliau a Gwybodaeth am Gyllid Pensiynau'r Sector Cyhoeddus.**

**(ii) Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod na ellir cael gweinyddiaeth gyllidol effeithiol ac na ellir gwneud penderfyniadau effeithiol oni bai bod gan yr unigolion cysylltiedig y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.**

**(iii) Felly, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn sicrhau bod ganddi amcanion, polisïau ac ymarferion, strategaethau a threfniadau adrodd yn ôl ffurfiol a chynhwysfawr er mwyn derbyn a chynnal sgiliau a gwybodaeth berthnasol yn effeithiol am Gyllid Pensiynau'r Sector Cyhoeddus ar gyfer y rhai hynny o fewn y gronfa sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau.**

**(iv) Bydd y polisïau a'r ymarferion hyn yn cael eu harwain drwy gyfeirio at fframwaith cynhwysfawr o sgiliau a gwybodaeth megis y rhai a sefydlwyd gan Fframweithiau Sgiliau a Gwybodaeth am Gyllid Pensiynau CIPFA.**

**(v) Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adrodd yn flynyddol ynghylch y modd y mae'r polisïau hyn wedi'u gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol.**

**(vi) Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu gofynion Côd Ymarfer CIPFA i'r Pennaeth Cyllid a bydd ef yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r gronfa ac yn unol â Safonau Ymarfer Proffesiynol CIPFA.**

**(b) Y dylid cylchredeg holiadur hunanasesu i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn sefydlu'r gofynion hyfforddi cyn symud ymlaen i ddatblygu rhaglen hyfforddi briodol.**

**(c) Bod y Pwyllgor Pensiynau yn mabwysiadu'r datganiad polisi sgiliau a gwybodaeth (fel y cyfeirir ato ym mhwynt (iii) uchod) fel a ganlyn:-**

**Mae Cronfa Bensiwn Gwyned yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau o ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.**

**Felly, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y gronfa yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.**

**(ch) Bod y Pwyllgor yn cytuno i'r egwyddor o gyhoeddi datganiad o gydymffurfiaeth gyda'r Côd Stiwardiaeth ac yn mabwysiadu dulliau priodol o graffu gweithrediad llywodraethu'r rheolwyr buddsoddi ar ran y gronfa a dylanwadu'n bositif fel cyfranddalwyr ecwiti cyfrifol drwy dreialu'r opsiwn o ymaelodi â Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF), os yw'r gost flynyddol yn llai na £10,000, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn yn Ebrill 2013. Fodd bynnag, os yw'r gost flynyddol yn fwy na £10,000, dylid monitro'r rheolwyr buddsoddi yn fewnol ac ymddiried ynddynt i gynrychioli buddiannau'r Gronfa fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.**

**(d) Y dylid parhau i adrodd i'r Pwyllgor ar ymgysylltiad rheolwyr buddsoddi ar sail eithriad.**

**(dd) Y dylai'r Pwyllgor gytuno i gynnwys ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol yn y dulliau priodol o graffu ac adrodd am reolwyr buddsoddi ecwiti.**

**(e) Bod y gwahoddiad i anfon cynrychiolydd i Seminar Buddsoddi'r LGC yng Nghaer ar 1 Mawrth, 2012 yn cael ei anfon ymlaen i'r aelodau cyfetholedig ar y pwyllgor hwn.**

**5. YMGYNGHORIAD CLG AR Y NEWIDIADAU I GYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu ar ymateb y Gronfa Bensiwn i Ymgynghoriad CLG ar gyflawni arbedion o £900m o fewn y cynllun pensiwn llywodraeth leol erbyn 2014/15 drwy gynnydd arfaethedig i gyfraddau cyfraniad y gweithiwr a newidiadau i gyfraddau croniadau'r cynllun, yn weithredol o 1 Ebrill 2012 yn Lloegr a Chymru.

Gan gyfeirio at ymateb drafft Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r ymgynghoriad yn rhan 6 o'r adroddiad, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod o'r farn mai dau fater mewn gwirionedd oedd yn berthnasol i'r pwyllgor hwn fel ceidwad y Gronfa, sef:-

(1) Y gallai unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau'r gweithiwr a gostyngiad mewn buddion arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n eithrio o'r cynllun pensiwn. Po fwyaf fyddai'n tynnu allan o'r cynllun, mwyaf anodd y byddai wedyn i gael cronfa hyfyw i'r gweddill. Hefyd, nid oedd cynigion y Llywodraeth yn cynnig yr opsiwn o gadw'r buddsoddiadau a thalu mwy neu leihau'r buddion a pheidio talu mwy.

(2) Bod cwestiwn yn codi ynghylch cydraddoldeb rhwng cynlluniau sector cyhoeddus gwahanol – a fydd gweithwyr ar lefelau cyflog tebyg yn wynebu talu cyfraniadau gweithwyr tebyg ar draws yr holl gynlluniau? E.e. athrawon a gweithwyr cymdeithasol, yn enwedig o gofio'r lefelau uwch o gyflogau o dan £15k a £21k yn y CPLlL fyddai'n rhoi pwysau anghyfartal ar y rhai sy'n ennill cyflog canolradd i uchel o gymharu â demograffeg cynlluniau sector cyhoeddus eraill, e.e. cynllun athrawon.

Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw weithiwr sy'n ystyried eithrio o'r cynllun pensiwn yn derbyn cyngor priodol er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ddeall goblygiadau hynny, e.e. colli'r grant marwolaeth a delir i fuddiolwyr enwebedig.

**PENDERFYNWYD cyflwyno sylwadau (1) a (2) uchod mewn ymateb i ymgynghoriad CLG ar y newidiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:-**

**6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2010/11**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA.

Ymatebodd y Pennaeth Cyllid yn briodol i gwestiynau gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Cyllid yn adrodd ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, yn unol ag argymhelliad Côd Ymarfer CIPFA.

Ymatebodd y Pennaeth Cyllid yn briodol i gwestiynau gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried rhai addasiadau i Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor 2011/12 a Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Gronfa Bensiwn 2011/12.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid, yn dilyn israddio nifer o fanciau ar restr gwrthbartïon awdurdodedig y Cyngor o ganlyniad i'r dirywiad yn y sefyllfa ariannol fyd-eang, y cyflwynwyd adroddiad brys i'r Cyngor llawn ar 20 Hydref 2011 er mwyn addasu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 mewn perthynas â threfniadau bancio dydd i ddydd y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid y defnyddid Barclays Bank Plc ar gyfer trefniadau banc y Cyngor, ac ar hyn o bryd 'roedd gradd credyd "A+" Barclays yn ddigonol i'w ddefnyddio fel gwrth barti ar gyfer buddsoddiadau. Er hynny, rhoddwyd y banc ar 'wyliadwriaeth raddio negyddol' ac felly gallasai gael ei israddio yn y dyfodol. Gan hynny, newidiwyd Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 gan y Cyngor i gynnwys y geiriad canlynol:-

***"Gan mai Barclays Bank Plc yw banc y Cyngor, bydd yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer gofynion hylifedd tymor byr (buddsoddiadau dros nos a phenwythnosau) a threfniadau parhad busnes pe bai ei radd credyd yn disgyn o dan "A+" (neu gyfatebol yn y dyfodol".***

Yna argymhellwyd bod Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Gronfa Bensiwn hefyd yn cael ei addasu ar yr un llinellau.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid ymhellach, yn unol â Datganiad Rheolaeth Trysorlys 2011/12, ei bod yn hanfodol bod unrhyw sefydliad ariannol a ddefnyddir at ddibenion buddsoddi gyda graddfa credyd "A" o leiaf ac mai'r uchafswm ar gyfer hyd y buddsoddiad oedd 2 flynedd. Fodd bynnag, 'roedd ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn argymell y dylid newid y cyfyngiad i raddfa credyd isafswm o "A-" ac uchafswm buddsoddiad o flwyddyn. Ni ddymunid ychwanegu pob banc gyda graddfa credyd "A" i'r rhestr, ond byddai hyn yn caniatáu gwneud buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu'r DU sy'n systemig bwysig.

Nododd y Pennaeth Cyllid ymhellach fod y Datganiad Rheolaeth Trysorlys 2011/12 yn cynnwys Adneuon Cyfnod Penodol gydag Awdurdodau Lleol fel buddsoddiad diogel iawn a bod hyn wedi bod yn ffynhonnell incwm da yn ystod 2011/12. 'Roedd y cyfyngiad cyfredol ar gyfer buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol eraill yn £10m ac 'roedd ymgynghorwyr y Cyngor, Arlingclose, yn argymell codi'r cyfyngiad hwn i £25m.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Er mwyn sicrhau bod trefniadau dydd i ddydd yn aros o fewn gofynion y Datganiad Strategaeth pe bai Banc Barclays yn disgyn o dan y meini prawf gwreiddiol yn y dyfodol, mabwysiadu'r ychwanegiad a ganlyn i Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Gronfa Bensiwn 2011/12:-**

***"Gan mai Barclays Bank Plc yw banc y Cyngor, bydd yn dal i gael ei defnyddio ar gyfer gofynion hylifedd tymor byr (buddsoddiadau dros nos a phenwythnosau) a threfniadau parhad busnes pe bai ei radd credyd yn disgyn o dan "A+" (neu gyfatebol) yn y dyfodol***".

**(b) Cymeradwyo'r newidiadau a ganlyn i'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Gronfa Bensiwn 2011/12, yn amodol ar iddynt gael eu mabwysiadu ar gyfer Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor gan y Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr.**

**(i) Ei bod yn hanfodol bod unrhyw sefydliad ariannol a ddefnyddir at ddibenion buddsoddi â graddfa credyd 'A-' o leiaf, ac mai'r uchafswm ar gyfer hyd y buddsoddiad yw blwyddyn.**

**(ii) Codi'r cyfyngiad ar gyfer buddsoddiadau Adneuon Cyfnod Penodol gydag awdurdodau eraill i £25miliwn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.35am